

## Byw gan ddisgwyl dyfodiad daeargryn a chorwynt!



### MYFYRDOD APÊL CORWYNT CARIAD GRAWYS 2017

Un o'r pethau sy'n aros efo fi ar ôl bod yn y Philipinas yw'r rhyfeddod at y ffordd y mae pobl yr ynysoedd yn byw gydag ofn. Tra roeddem yno roedd dinas anferth Metro Manila'n cynnal 'drill daeargryn' fawr. Roedd yr heddlu a'r gwasanaethau argyfwng ynghyd â mudiadau fel Cymorth Cristnogol a'n partneriaid, busnesau, siopau, gyrrwyr tacsï, poblogaethau'r cymunedau tlawd a chyfoethog i gyd yn rhan o'r ymarfer hwn. Roeddem ni'n tair yn y gwesty pan ganodd y gloch. Diffoddwyd y trydan, daeth y traffig i stop, roedd staff y gwesty'n gwisgo siacedi llachar a rhai ohonynt yn dod i fyny o'r maes parcio gyda rhywun ar *stretcher* – eraill yn sicrhau nad oedd unrhyw rai yn y lloffttydd neu'r lifft. Pawb yn dilyn trefn oedd wedi cael ei baratoi ymlaen llaw gan wybod pw y oedd yn gyfrifol am y bag cymorth cyntaf, pw y oedd i ofalu am y gwesteion ac yn y blaen.

Roedd cyfarwyddiadau manwl ymhob ystafell o'r gwesty ynglŷn â beth i'w wneud mewn tân, mewn tsunami neu mewn daeargryn. Un o'r cyfarwyddiadau cyntaf gawsom ni wrth drafod ein diogelwch cyn mynd i'r wlad oedd dysgu y dylem fynd o dan y bwrdd neu sefyll yn fframyn y drws petai daeargryn yn digwydd – fframyn y drws ydi'r rhan gryfaf o'r wal – a byddai



Canlyniad daeargryn Loon, Bohol ynysoedd y Philipinau yn Hydref 2013  
Hawffraint wikimedia

bwrdd, gobeithio, yn arbed ein pennau rhag niwed petai rywbeth yn syrthio. Mae'r Philipinas oherwydd ei sefyllfa ddaearyddol yn dioddef trychinebau naturiol cyson – mae o leiaf pump ar hugain o gorwyntoedd yn taro'r ynysoedd yn flynyddol, mae nifer o losgfynddoedd ac mae'r ardal yn disgwyl daeargryn fawr i'w tharo unrhyw amser. Nid mater o 'os' ydyw – ond 'pryd'.

Mae swyddfa Cymorth Cristnogol yn gorwedd yn agos i'r 'faultline' ym Manila.

Yn sgil y ffaith fod y 'drill' yn digwydd roedd llawer o'r sgwrsio rhyngom â'r staff a'r partneriaid yn ymwneud â'r peryglon y maent yn eu hwynebu. Dywedodd un o'r staff wrthym fod ei blant yn gwybod lle i fynd petai daeargryn yn digwydd – ond ei obaith pennaf o oedd cael bod yn yr un lle a'r teulu pan ddigwyddai.

Pobl yn byw gyda'r ffaith anochel fod daeargryn neu ryw drychineb arall yn sicr o ddigwydd – ond yn parhau i weithio a chwerthin a mwynhau bywyd er gwaetha'r ofn. Wrth symud tua'r Pasg cofiwn fod Iesu hefyd yn byw gyda'r realiti o wybod beth oedd yn ei wynebu – ac yn dysgu i ni'r ffordd i fyw mewn cariad a heddwch.



'Arglwydd, helpa ni i ymdawelu ac ymbwyllo a chofleidio'r byd ger dy fron yn awr. Cyflwynwn yn arbennig bobl y Philipinas – pawb sydd wedi dioddef yn y ddaeargryn a gafwyd ym Mindanao a'r tân ym Manila fis diwetha. Gofynnwn i ti fod yn agos at holl bartneriaid Cymorth Cristnogol a phawb sy'n ymateb i'r trychinebau hyn ac argyfyngau tebyg mewn cymunedau ar draws yr ynysoedd nad ydynt yn cyrraedd y newyddion. Boed i gorwynt dy gariad ffwrddol Di ein huno â'n gilydd mewn gweithred a gwirionedd trwy waith rhyfeddol dy Ysbryd. Amen'.

Anna Jane Evans, (Parch)

## HYRWYDDWR/EIRIOLWR DIOGELU

Yn y Gymanfa Gyffredinol, mynegwyd gofid bod y pwyslais a roddir ar ddiogelu plant ac unigolion bregus o fewn ein heglwysi wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwyddom pa mor bwysig yw cael y gwiriadau DBS priodol yn eu lle er mwyn gwarchod plant. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen gwirfoddolwr/wyr sydd yn frwdfrydig ac yn barod i annog ein heglwysi a'n llysoedd i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, nid dim ond o ran cael y gwaith papur cywir yn ei le, ond er mwyn cryfhau'r agwedd iawn tuag at y rhai sydd o dan ein gofal.

Rydym yn edrych am rywun/ rhywrai sy'n teimlo eu bod yn cael eu galw i ymgymryd â'r rôl hon o fewn y Cyfundeb. Byddai'n rôl wirfoddol ond byddai costau priodol yn cael eu talu. Os oes diddordeb gennych mewn gwaith o'r fath, gallwch gysylltu gyda'r Adran Gweinidogaethau trwy'r swyddfa.

Robert Bebb, (Parch) Cadeirydd

